



## **POLISI DIOGELU DATA**

### **1. DIBEN**

Diben y Polisi Diogelu Data yw egluro'r gofynion o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data yng nghyd-destun Prifysgol Caerdydd, egluro dyraniad mewnol cysylltiedig dyletswyddau a chyfrifoldebau, a nodi'r strwythur y bydd cydymffurfiaeth yn cael ei hwyluso oddi mewn iddo.

### **2. CWMPAS**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i brosesu Data Personol gan aelodau o Brifysgol Caerdydd neu ar ran Prifysgol Caerdydd.

### **3. PERTHYNAS Â PHOLISIÂU SYDD EISOES YN BODOLI**

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Dylid ei ddarllen mewn cysylltiad â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth a Pholisi'r Brifysgol ynghylch Codi Tâl am Wybodaeth.

Mae perthynas rhyngddo hefyd â pholisïau eraill y Brifysgol, yn benodol:

- Y Polisi Cyfrinachedd
- Y Polisi Rheoli Cofnodion
- Y Côd Ymarfer ar gyfer Profion Adnabod Ffotograffig

### **4 DATGANIAD POLISI**

Rhaid i Brifysgol Caerdydd bob amser weithredu mewn modd sy'n gyson â rhwymedigaethau Rheolydd Data o dan ddarpariaethau deddfwriaeth Diogelu Data, gan sicrhau bod preifatrwydd yn ystyriaeth allweddol yn ei weithrediadau, bod unrhyw gofrestrïadau a thaliadau gorfodol i gyrrff rheoleiddio wedi'u diweddarau, a bod hawliau unigolion o dan y deddfwriaeth yn cael eu parchu.

Rhaid i bob aelod o'r Brifysgol sy'n ymdrin â Data Personol neu gael mynediad iddo o dan reolaeth neu ar ran y Brifysgol gydymffurfio â darpariaethau perthnasol deddfwriaeth Diogelu Data mewn perthynas â phrosesu data personol.

#### **4.1 DEDDFWRIAETH DIOGELU DATA**

##### **RIGHTS**

Rhaid i Brifysgol Caerdydd barchu hawliau unigolion fel y bo'n gymwys ac fel y diffinnir ym Mhennod III o GDPR gan gynnwys hawl:

- i gael gwybod am brosesu (Erth 13 a 14),
- i gael mynediad i'w data personol (Erth 15)
- i gywiro data personol anghywir (Erth 16)
- i ddileu (Erth 17)
- i gyfyngu ar brosesu (Erth 18)
- i hygludedd data (Erth 20)
- i wrthwynebu prosesu, gan gynnwys gwrthwynebiad i farchnata uniongyrchol (Erth 21)
- mewn perthynas â phenderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys proffilio (Erth 22).

Bydd rhagor o wybodaeth am yr hawliau hyn, ble gallent fod yn berthnasol a sut gellir eu hwyluso yn cael ei darparu ar [tudalennau Diogelu Data](#) gwefan Prifysgol Caerdydd.

## 4.2 RHWYMEDIGAETHAU

4.2.1 Rhaid i Brifysgol Caerdydd hysbysu staff, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a thestunau eraill data ynghylch sut y mae'n defnyddio eu data personol, gyda phwy y caiff eu data ei rannu a gwybodaeth berthnasol arall yn unol â gofynion hysbysiadau preifatrwydd. Bydd yr hysbysiadau hyn yn cael eu cyfleu i destunau'r data wrth gasglu eu data personol a phan fydd amrywiadau, lle bo hynny'n briodol, a bydd hysbysiadau'n cael eu darparu trwy'r [Tudalennau Diogelu Data](#).

4.2.2 Rhaid i Brifysgol Caerdydd a'i holl aelodau brosesu data personol yn unol â'r seiliau cyfreithlon a bennwyd yn erthyglau 6 a 9 o GDPR fel y bo'n berthnasol, a'r chwe Egwyddor Diogelu Data fel y'u nodwyd yn Erthygl 5.

Yn gryno, mae'r Egwyddorion Diogelu Data yn nodi bod rhaid i ddata personol:

- a) gael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithlon;
- b) gael ei brosesu at ddibenion penodedig;
- c) fod yn ddigonol, yn berthnasol a heb fod yn ormodol,
- d) fod yn gywir ac yn gyfredol,
- e) beidio â chael ei gadw'n hwy nag sy'n angenrheidiol;
- f) gael ei ddiogelu a'i amddiffyn yn briodol rhag mynediad diawdurdod, colli neu ddatgelu;

Yn ogystal, bydd data personol yn cael ei brosesu'n unol â hawliau testunau'r data ac ni fydd y Brifysgol yn trosglwyddo data personol y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop, i drydydd gwledydd nac i sefydliad rhyngwladol oni bai ei fod wedi'i ddiogelu'n ddigonol ac yn unol â'r egwyddor gyffredinol ar gyfer trosglwyddo fel y nodir yn Erthygl 44 o'r GDPR.

## 4.3 PROSESU DATA PERSONOL HEB AWDURDOD

Ni chaiff aelodau o'r Brifysgol 'brosesu' data personol ond os yw hynny o dan reolaeth, neu ar ran, y Brifysgol, pan fo sail gyfreithiol i wneud hynny a phan fo'r aelod dan sylw wedi'i awdurdodi gan y Brifysgol i brosesu'r data personol hwnnw.

4.4 Mae prosesu data personol heb awdurdod gan aelodau o'r Brifysgol yn cynnwys cyrchu cofnodion data personol er budd a/neu elw preifat, hyd yn oed os caniatwyd mynediad i'r system gofnodi ei hun i'r un aelod at ddibenion busnes.

4.5 Mae prosesu data personol heb awdurdod hefyd yn cynnwys datgelu data personol (gan gynnwys datgeliadau ar lafar) i drydydd parti naill ai drwy weithred neu ddiffyg

gweithredu lle mae'n hysbys nad oes gan y trydydd parti yr hawl i dderbyn y data hwnnw.

- 4.6 Os bydd aelodau'n ansicr ynghylch unrhyw un o ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data neu'r polisi hwn, rhaid iddynt geisio cyngor priodol gan eu rheolwr llinell a/neu Swyddog Diogelu Data y Brifysgol.
- 4.7 Mae prosesu data personol heb awdurdod yn fater disgyblu posibl y gellid ei ystyried o dan y côd disgyblu perthnasol a gall achosion difrifol o dorri'r côd roi 'achos da' dros ddiswyddo a/neu fod yn gyfystyr â thramgwydd droseddol.

## **5 CYFRIFOLDEBAU**

- 5.1 Y brifysgol fel corff corfforaethol yw Rheolwr y Data. Yr uwch swyddog sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth y Brifysgol â deddfwriaeth Diogelu Data yw'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth.
- 5.2 Rhaid i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth enwebu Swyddog Diogelu Data i fod yn gyfrifol am gynghori ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth Diogelu Data a monitro hynny, gan gynnwys cynyddu ymwybyddiaeth, hyfforddiant ac archwiliadau; bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; rhoi cyngor ar Aseidiadau Effaith ar Breifatrwydd, goruchwylio'r gwaith o hwyluso hawliau gwrthrych y data; a datblygu canllawiau penodol ar faterion diogelu data ar gyfer aelodau o'r Brifysgol.
- 5.3 Perchnogion Asedau Gwybodaeth Allweddol sy'n gyfrifol am sicrhau bod lefelau priodol o ddiogelwch yn cael eu cymhwyso i unrhyw ddata personol oddi mewn i gwmpas yr asedau. Stiwardiaid Data a Pherchnogion Galluogi Asedau sy'n gyfrifol am reoli risg diogelu gwybodaeth mewn perthynas â'r data personol a gedwir o fewn eu systemau.
- 5.4 Rhaid i bob Pennaeth Ysgol/Sefydliad Ymchwil/Gwasanaeth Proffesiynol enwebu Cyswllt Rheoli Gwybodaeth fydd yn cynorthwyo'r Swyddog Diogelu Data i hwyluso hawliau gwrthrychau'r data gan gynnwys coladu data yn ôl y galw mewn ymateb i Geisiadau Mynediad at Wrthrych. Y cyswllt ar gyfer gwybodaeth a gedwir ar lefel Coleg fydd Cofrestrydd y Coleg. Rhaid cyflawni gweithdrefnau Ceisiadau Mynediad at Wrthrych yn unol â Pholisi Ffioedd Gwybodaeth y Brifysgol.
- 5.5 Rhaid i'r Brifysgol gymryd y camau sy'n briodol (gan gynnwys rhaglenni hyfforddiant) i sicrhau bod gwrthrychau data yn ymwybodol o'u hawliau a rhwymedigaethau a hawliau a rhwymedigaethau'r Brifysgol o dan y ddeddfwriaeth, ac i wneud yr holl staff a myfyrwyr yn ymwybodol o ofynion Diogelu Data a goblygiadau prosesu data personol.
- 5.6 Rhaid i bob aelod o staff ymarfer cyfrifoldeb personol wrth ymdrin â data personol yn ddiogel, yn unol â Rheolau Dosbarthu a Thrafod Gwybodaeth y Brifysgol, ac ni chânt yn fwriadol neu'n fyrbwyll adael data personol yn agored i fynediad heb awdurdod, neu ei gael ei ddatgelu neu ei golli. Os bydd yr aelodau'n ansicr ynghylch pa fesurau diogelu sy'n briodol, rhaid iddynt geisio cyngor gan eu rheolwr llinell a/neu'r Gwasanaethau TG a/neu Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol.

## **6 CYDYMFFURFIAETH**

- 6.1 ACHOSION O DORRI'R POLISI DIOGELU DATA

Rhaid rhoi gwybod i Ddesg Wasanaeth TG y Brifysgol am bob achos honedig o dorri'r Polisi Diogelu Data, yn unol â'r Weithdrefn Rheoli Achosion Diogelu Gwybodaeth. Gall unrhyw ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data gan staff neu fyfyrwyr olygu bod y Brifysgol a/neu'r unigolyn yn agored i gamau cyfreithiol, hawliadau am iawndal sylweddol a dirwyon gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gymryd o ddifrif gan y Brifysgol a gellir ei ystyried o dan weithdrefnau disgyblu.

- 6.2** Yn unol â'r weithdrefn honno, rhaid i'r Swyddog Diogelu Data gynghori ar y goblygiadau, yr atebion posibl a chamau lliniaru mewn ymateb i achos honedig o ddiffyg cydymffurfio.
- 6.3** Mewn achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio honedig bydd yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn ystyried a ddylid rhoi gwybod am y mater i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan roi sylw dyledus i gyngor y Swyddog Diogelu Data.

## **7 DIFFINIADAU ALLWEDDOL**

### ***Deddfwriaeth Diogelu Data***

Mae hyn yn cynnwys yn bennaf y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018).

### ***Data Personol***

Unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi am unigolyn sy'n fyw a allai gael ei adnabod drwy'r data dan sylw neu drwy'r data hwnnw a gwybodaeth arall sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gwybodaeth a gedwir mewn cofnodion papur, cofnodion electronig, ffeiliau digidol, recordiadau fideo a sain, delweddau ffotograffig.

### ***Prosesu data personol***

Prosesu yw cyflawni unrhyw weithrediad sy'n ymwneud â Data Personol (gan gynnwys casglu, cyrchu, cynnal, trin, copïo, tynnu enwau ohono, dadansoddi, ddatgelu neu ddileu) yn ogystal â chadw data personol yn unig.

### ***Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth***

Fel y diffiniwyd ym [Mholisi Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol](#)

### ***Perchennog Asedau Gwybodaeth Allweddol***

Fel y diffiniwyd ym [Mholisi Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol](#)

### ***Stiward Data***

Fel y diffiniwyd ym [Mholisi Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol](#)

### ***Galluogi perchennog asedau***

Fel y diffiniwyd ym Mholisi Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol

### ***Swyddog Diogelu Data***

Gofynnol os yw Rheolwr y Data yn awdurdod cyhoeddus. Cyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth mewnol, cynghori ar rwymedigaethau diogelu data, darparu cyngor ar Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a thestunau'r data. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y rôl ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

***Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)***

Rheoleiddiwr deddfwriaeth diogelu data yn y Deyrnas Unedig.

DIWEDD Y POLISI

<b>Tabl Rheoli'r Ddogfen</b>			
<b>Teitl y Ddogfen:</b>	Polisi Diogelu Data		
<b>Awdur(on) (enw, teitl swydd ac is-adran):</b>	Matt Cooper – Uwch-ymgyngorydd Sicrwydd (Swyddog Diogelu Data), Adran Cynllunio Strategol a Llywodraethu		
<b>Rhif y Fersiwn:</b>	2.0		
<b>Statws y Ddogfen:</b>	Cymeradwywyd		
<b>Dyddiad Cymeradwyo:</b>	22 Mai 2018		
<b>Cymeradwywyd Gan:</b>	Grŵp Goruchwylio Rheoli Data a Gwybodaeth		
<b>Dyddiad Dod i Rym:</b>	22 Mai 2018		
<b>Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:</b>	Mai 2019		
<b>Y Fersiwn a Ddisodlwyd:</b>	1.3		
<b>Hanes y Ddogfen</b>			
<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Awdur</b>	<b>Nodiadau ar Ddiwygiadau</b>
Fer 1.0	Chwefror 2011	Ruth Robertson	Cymeradwywyd gan y Cyngor
Fer 1.1	Medi 2013	Matt Cooper – Rheolwr Hawliau Gwybodaeth	Adolygu - mân newidiadau - diweddarau teitlau swyddi
Fer 1.2	Hydref 2014	Matt Cooper – Rheolwr Hawliau Gwybodaeth	Adolygu - mân newidiadau - diweddarau teitlau swyddi a dolen i swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Fer 1.3	Mehafin 2015	Matt Cooper – Rheolwr Hawliau Gwybodaeth	Newidiadau i adrannau 3, 5 a 6 i gyd-fynd â'r Polisi Diogelu Gwybodaeth. Ychwanegu cyfeiriadau at Stiwardiaid Data a Galluogi Perchnogion Asedau yn 5.3, ynghyd â diffiniadau. Ychwanegu paragraff 4.2.2 a chyfeiriad at Gofrestrwyr y Colegau yn 5.2
Fer 2.0	Mai 2018	Matt Cooper – Uwch-ymgyngorydd Sicrwydd (Swyddog Diogelu Data)	Diwygio a diweddarau mewn ymateb i newidiadau GDPR